

## “Y disgwyliad am ras”

---

*“Glanhewch eich dwylo, chwi bechaduriaid, a phurwch eich calonnau, chwi bobl ddau feddwl.” (adn. 8)*

### **Beth am ddarllen Iago 4:1–12 ac yna myfyrio**

Yn ôl Samuel Johnson, “Mae angen i ni gael ein hatgoffa ynghyd â chael ein dysgu.” Mi fyddai’n fuddiol i’r rhai sydd yn cynllunio ac yn cyflwyno’r weinidogaeth mewn eglwysi gadw hyn mewn golwg. Ochr yn ochr â dysgu, mae yna rai gwirioneddau sydd angen atgoffa cynulleidfaoedd amdanynt, ac mae’r gwirionedd am bechod yn un o’r rheiny. Ein gelyn yw pechod, ac mae ar ei waethaf pan mae’n ein twyllo nad yw’n bodoli.

Yr hyn yr ydym wedi ei bwysleisio dros y dyddiau diwethaf yw bod eglwys yn colli ei hagosrwydd at yr Ysgrythurau os nad yw’n seinio nodyn clir gyda golwg ar y ffaith fod dynion a merched yn bechaduriaid. Nid fod y gair ‘pechadur’ i fod yn arf gyda golwg ar gondemnio, ond yn hytrach yn arf i greu disgwyliad am ras. Pan mae eglwys yn gweld pobl fel ag y mae’r Beibl yn eu gweld – fel pechaduriaid y mae angen Gwaredwr arnynt– yna mae hyn yn diogelu sylfaen o lawenydd. Gall wedyn gyhoeddi gweithredoedd mawrion Duw o blaid pechadur. Lle bynnag mae’r ffynnon hon wedi ei chau, dylid gwneud ymdrechion buan i’w hailagor. Nid moderniaeth sydd i ffurfio ein dealltwriaeth o bechod. Gwaith yr Ysgrythur yw hwnnw.

Bellach yr ydym yn gorfod cydnabod fod y syniad fod gwŷr a gwragedd yn bechaduriaid ac angen Gwaredwr arnynt yn wirionedd sy’n gwneud i’r byd wenu, ac i wenu mewn gwawd. Ac nid gwên ond gofid sy’n dod i galon y Cristion wrth ystyried ei bechod ei hunan. Ond yn y gofid hwn y mae llawenydd a gorfoledd pennaf ei enaid, oherwydd yn Iesu Grist ceir Gwaredwr i bechod.

### **Beth am fynd ymlaen i ddarllen:**

Math. 21:28–32; Luc 15:11–24

### **Meddylwch am y cwestiynau hyn:**

1. Pwy oedd yn mynd i mewn i deyrnas Dduw?
2. Sut mae Iesu yn esbonio ymateb Duw i bechaduriaid?

### **Gweddi**

O Dduw, cynorthwyo ni, nid i fod yn feirniadol, ond i feddu ar ofid dwyfol. Caniatâ i ni dynnu’r trawst o’n llygaid ein hunain cyn i ni feiddio ceisio dwyn y brycheuyn o lygaid ein brawd. Yn enw Iesu. Amen.